Taflen Ffeithiau
Codau Ymddygiad

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn ymdrin ag ymddygiad Aelodau ac Aelodau cyfetholedig Awdurdodau Lleol, Cynghorau Cymuned, Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parc Cenedlaethol yng Nghymru. Dylid ei darllen ochr yn ochr â'n taflen wybodaeth gyffredinol am ein gwasanaeth.

Mae holl Aelodau etholedig a chyfetholedig y cyrff uchod yn rhwym wrth Godau Ymddygiad. Mae'n ofynnol ar bob un o'r awdurdodau perthnasol i fabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer ei Aelodau sy'n seiliedig ar y Cod Ymddygiad Enghreifftiol a gyflwynwyd yn 2008 (yng Nghymru).

Mae'r Cod enghreifftiol yn cynnwys safonau gofynnol y gellir eu gorfodi sy'n datgan sut y dylai Aelodau ymddwyn, yn broffesiynol ac (mewn rhai achosion) yn bersonol hefyd. Mae'r Cod yn cynnwys darpariaethau megis i 'drin pobl eraill â pharch' ac i 'roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylai pob person fod yn gyfartal'. Mae'r Cod hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â bwlio ac ymddygiad bygythiol, yn ogystal â datgelu gwybodaeth gyfrinachol, a defnyddio'u swydd mewn ffordd annheg.

Mae'r Cod yn gosod cyfrifoldeb ar Aelodau i ystyried a oes ganddynt "fudd personol" (h.y. gwrthdrawiad buddiannau posibl) mewn mater penodol, megis bodolaeth a natur y budd y dylid ei ddatgelu. Os oes budd o'r fath, mae'r Cod yn egluro i ba raddau, os o gwbl, y gall Aelod barhau i gymryd rhan yn y busnes sy'n gysylltiedig â'r budd. Mae'r Cod hefyd yn cynnwys canllawiau ar gofrestru rhoddion a lletygarwch.

Fel arfer bydd Cod yr Awdurdod i'w weld ar ei wefan. Neu, bydd copïau ar gael gan Swyddog Monitro neu Glerc pob Awdurdod.

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Os ydych yn credu bod aelod wedi, neu'n amau ei fod wedi torri Cod Ymddygiad ei Awdurdod, efallai y gall yr Ombwdsmon ymchwilio i'ch cwyn.

Fel arfer gall ymchwilio i'r gŵyn os:

- oes tystiolaeth bod y Cod wedi'i dorri; ac
- os byddai'r honiad o dorri amodau'r Cod yn debygol o arwain at gosb gan bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru.

Mae gan yr Ombwdsmon ddisgresiwn wrth benderfynu a yw am ymchwilio i gŵyn o'r fath neu beidio. Wrth ddefnyddio'i ddisgresiwn, bydd yr Ombwdsmon yn ystyried canlyniad achosion blaenorol a ystyriwyd gan bwyllgorau safonau ledled Cymru, a chan Banel Dyfarnu Cymru, a bydd yn penderfynu ar sail hynny. Gall hefyd ystyried unrhyw gwynion blaenorol a all fod wedi'u gwneud yn erbyn aelod penodol.

Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Ni all yr Ombwdsmon:

- bennu cosbau megis atal Aelod dros dro neu ei wahardd;
- gofyn i Aelod ymddiswyddo o'i swydd neu ei orfodi i wneud hynny;
- gofyn i Aelod wneud rhyw fath o daliad fel iawndal neu ei orfodi i wneud hynny.

Pan fydd yr Ombwdsmon yn barnu bod y gŵyn yn un gyfiawn, gall ei chyfeirio un ai at bwyllgor safonau'r Awdurdod perthnasol, neu at Dribiwnlys a gynullir gan Banel Dyfarnu Cymru i wneud penderfyniad ar y mater. Os canfyddir fod y cod wedi'i dorri, y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru fydd yn penderfynu ac yn pennu cosb briodol.

Materion i gadw mewn cof

Wrth gyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon fod Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad, mae'n hanfodol eich bod yn cynnwys cymaint o dystiolaeth â phosibl i ategu unrhyw gŵyn. Rhaid i bob cwyn gael ei chyflwyno'n ysgrifenedig. Mae copi o ffurflen gwyno am God Ymddygiad ar gael ar ein gwefan: www.ombwdsmon-cymru.org.uk.

Os byddwch yn penderfynu cwyno, dylech fod yn barod i'ch enw a'r wybodaeth yn eich cwyn gael eu trosglwyddo i'r Aelod dan sylw ac i'r awdurdod, gan gofio ei bod yn bosibl y daw'r ffeithiau hyn yn wybodaeth gyhoeddus. Dylech fod yn barod hefyd i roi tystiolaeth lafar yn gyhoeddus i gefnogi'ch cwyn gerbron Pwyllgor Safonau'r awdurdod, neu gerbron unrhyw dribiwnlys achos a all gael ei benodi i ystyried adroddiad y gall yr Ombwdsmon ei gyhoeddi os bydd yn penderfynu ymchwilio i'ch cwyn.

Os bydd yr Ombwdsmon yn penderfynu ymchwilio i gŵyn, bydd fel arfer yn cael tystiolaeth ddogfennol berthnasol bellach, tystiolaeth tystion a thystiolaeth gan yr Aelod dan sylw. Bydd y dystiolaeth hon yn cael ei hystyried yng nghyd-destun y Cod wrth benderfynu a yw'r Cod wedi'i dorri.

Os yw'ch cwyn yn ymwneud ag unrhyw beth heblaw ymddygiad Cynghorydd, dylech gyfeirio at drefn gwyno'ch Cyngor.

Gwybodaeth bellach

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ac amhleidiol; ni all orchymyn cyrff cyhoeddus i wneud yr hyn mae'n ei argymell - ond, fel arfer, maent yn gwneud hynny bron yn ddieithriad. Ceir enghreifftiau o achosion y mae'r Ombwdsmon wedi ymchwilio iddynt ar ein gwefan. Ewch i www.ombwdsmon-cymru.org.uk.

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni:

- **ffoniwch** 0845 601 0987;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ